# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## Y Chwarter Cyntaf

## Ebrill 2021 – Mehefin 2021


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro, a gallai mân newidiadau gael eu gwneud.**

**CYNNWYS**


| **ADRODD YNGHYLCH GWEITHGARWCH MEWN PERTHYNAS Â DIGWYDDIADAU** | |
|---|---|
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORÏAU** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN GWELLA A LLESIANT – A** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Larymau mwg wedi seinio (tanau damweiniol mewn cartrefi) | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Yn ystod chwarter cyntaf 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 1,320 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen – sef 4.2% yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2020/21.





| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2021-22 | 1,320 | | | | 1,320 | ↓ 4.2% | 1,399 | ↓ 5.6% |
| | 2020-21 | 1,378 | | | | 1,378 | | | |
| Yr holl danau | 2021-22 | 575 | | | | 575 | ↓ 11.9% | 628 | ↓ 8.4% |
| | 2020-21 | 653 | | | | 653 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2021-22 | 153 | | | | 153 | ↑ 59.4% | 182 | ↓ 15.9% |
| | 2020-21 | 96 | | | | 96 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2021-22 | 592 | | | | 592 | ↓ 5.9% | 589 | ↑ 0.5% |
| | 2020-21 | 629 | | | | 629 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif Danau –** Roedd nifer y prif danau wedi cynyddu 12.1% yn ystod chwarter cyntaf 2021/22, a'r mathau o eiddo 'Adeiladau' ac yna 'Cerbydau ffyrdd' oedd y rhan fwyaf o'r prif danau, sef 72.5% a 20.7% ar gyfartaledd yn eu trefn, gyda'r gweddill yn rhai 'Awyr Agored'.

2.2 **Tanau Eilaidd –** roedd nifer y tanau eilaidd wedi gostwng 25.6%. Roedd y rhan fwyaf o'r tanau eilaidd (dros 95%) wedi digwydd mewn mathau o eiddo 'Awyr Agored'.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2021-22 | 251 | | | | 251 | ↑ 12.1% | 238 | ↑ 5.5% |
| | 2020-21 | 224 | | | | 224 | | | |
| Tanau eilaidd | 2021-22 | 293 | | | | 293 | ↓ 25.6% | 360 | ↓ 18.6% |
| | 2020-21 | 394 | | | | 394 | | | |
| Tanau Simnai | 2021-22 | 31 | | | | 31 | ↓ 11.4% | 30 | ↑ 3.3% |
| | 2020-21 | 35 | | | | 35 | | | |

* Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 3.0 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Cafodd 19 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gydag 13 o'r rheini'n digwydd yng Ngharchar EM Berwyn. Yn yr un cyfnod y llynedd, aeth y gwasanaeth at 20 o danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 15 o'r rheini'n digwydd yng Ngharchar EM Berwyn.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2021-22 | 40 | | | | 40 | ↓ 2.4% | 43 | ↓ 7% |
| | 2020-21 | 41 | | | | 41 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | 2021-22 | 211 | | | | 211 | ↑ 15.3% | 195 | ↑ 8.2% |
| | 2020-21 | 183 | | | | 183 | | | |

* Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 Yn ystod y chwarter cyntaf yn 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 592 o alwadau diangen, sef 5.9% o ostyngiad o'r 629 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y galwadau diangen didwyll wedi gostwng 16.6%, roedd y galwadau diangen maleisus wedi gostwng 64.7% i 6, ac roedd y galwadau diangen oherwydd offer (galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig) wedi cynyddu (10.3%).





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 262 | 295 | 288 | 282 | 311 | 288 |
| Didwyll | 250 | 260 | 273 | 330 | 275 | 288 |
| Maleisus | 9 | 10 | 12 | 17 | 6 | 13 |
| Cyfanswm | 521 | 565 | 573 | 629 | 592 | 589 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2021-22 | 592 | | | | 592 | ↓ 5.9% | 589 | ↑ 0.5% |
| | 2020-21 | 629 | | | | 629 | | | |
| Larymau tân awtomatig | 2021-22 | 311 | | | | 311 | ↑ 10.3% | 288 | ↑ 8.0% |
| | 2020-21 | 282 | | | | 282 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2021-22 | 275 | | | | 275 | ↓ 16.6% | 288 | ↓ 4.5% |
| | 2020-21 | 330 | | | | 330 | | | |
| Maleisus | 2021-22 | 6 | | | | 6 | ↓ 64.7% | 13 | ↓ 53.8% |
| | 2020-21 | 17 | | | | 17 | | | |

* Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Yn chwarter cyntaf 2021/22, cafwyd 153 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â 96 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 59.4%.





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| GRFfs | 42 | 43 | 53 | 17 | 31 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 99 | 104 | 103 | 65 | 98 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 212 | 120 | 0 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 8 | 11 | 15 | 14 | 24 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2021-22 | 153 | | | | 153 | ↑ 59.4% | 182 | ↓ 15.9% |
| | 2020-21 | 96 | | | | 96 | | | |
| Gwrthdrawiad-au traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 31 | | | | 31 | ↑ 82.4% | 38 | ↓ 18.4% |
| | 2020-21 | 17 | | | | 17 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiad au traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 122 | | | | 122 | ↑ 54.4% | 144 | ↓ 15.3% |
| | 2020-21 | 79 | | | | 79 | | | |

*Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Allan/Rhyddhau

6.1 Yn ystod chwarter cyntaf 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 31 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, sef 82.4% o gynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (17). Cafwyd saith digwyddiad lle bu'n rhaid torri person neu bobl allan a/neu ryddhau (22.6%), o gymharu â chwech yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.





| | |
|---|---|
| **31** | Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt |
| **20** | Digwyddiadau lle cafodd pobl anaf |
| **7** | Digwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau |

| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad rhagofalus | 2 |
| Cymorth Cyntaf | 3 |
| Mân anafiadau | 13 |
| Anafiadau difrifol | 11 |
| Marwolaethau | 4 |

**Anafiadau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd – pan fo rhai ar gael, caiff y rhain eu cofnodi yn yr IRS yn yr un categori ag anafiadau tân*

## 7.0 Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru – *cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi codi i 113 o 104 yn y flwyddyn flaenorol. O'r 113 o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd 57 o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â choginio (sosban sain/ffriwr saim dwfn a dulliau eraill o goginio), nam ar offer neu beiriant, neu fod yn ddiofal wrth ddefnyddio offer neu beiriant (ffynhonnell gwres). Mae hyn yn 50% (33) o gynnydd yn nifer y digwyddiadau o'r fath, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r tueddiad cyffredinol yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn mynd am i fyny, gyda chyfanswm nifer y digwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd 18.9% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd, sef 95.




| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweinio l mewn cartrefi | 2021-22 | 113 | | | | 113 | ↑ 8.7% | 95 | ↑ 18.9% |
| | 2020-21 | 104 | | | | 104 | | | |

* Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 8.0 Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

8.1 Yn chwarter cyntaf 2021/22, cafwyd 44 o anafusion anangheuol oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi; cofnodwyd dau yn fwy o anafiadau difrifol a chwech yn fwy o fân anafiadau o gymharu ag yn 2020/21. Er bod nifer yr anafusion yn y cyfnod adrodd hwn yn uwch na'r llynedd, cafwyd mwy o ddigwyddiadau'n cynnwys anafusion lluosog. Fodd bynnag, mae cyfran y digwyddiadau a arweiniodd at anaf yn is o gymharu â'r llynedd.

8.2 Yn ystod chwarter cyntaf, 2021/22 cafwyd dau anaf angheuol oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, mae'r ddau yn aros cadarnhad gan y Crwner.


| Difrifoldeb yr Anaf | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 5 | 5 | 7 | 11 | 17 |
| Cymorth Cyntaf | 5 | 7 | 13 | 6 | 10 |
| Mân Anafiadau | 13 | 7 | 10 | 9 | 15 |
| Anafiadau Difrifol | 2 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| Marwolaeth | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Cyfanswm | 25 | 21 | 33 | 29 | 46 |

| **Categori** | **Blwydd-yn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfan-swm y cyfnod hyd yma** | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 44 | | | | 44 | ↑ 18 |
| | 2020-21 | 26 | | | | 26 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 2 | | | | 2 | ↓ 1 |
| | 2020-21 | 3 | | | | 3 | |

| **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | |
|---|---|
| 26 | ↑ 18 |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd 2,547 o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac roedd 1,014 (39.8%) o'r rheini i gartrefi a atgyfeiriwyd atom gan asiantaethau sy'n bartneriaid inni. Yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19, cynhaliwyd 1,135 o archwiliadau diogel ac iach wyneb yn wyneb, o gymharu ag 836 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Cynhaliwyd llai o archwiliadau diogel ac iach dros y ffôn yn ystod y cyfnod adrodd hwn (1,412) o gymharu â 2,776 wedi'u cynnal yn ystod yr un cyfnod y llynedd.




| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a atgyfeiriwyd gan sefydliad sy'n bartner i ni | 2021-22 | 39.8% | | | | 39.8% | ↑ 9pp | 28.4% | ↑ 11pp |
| | 2020-21 | 30.5% | | | | 30.5% | | | |

* Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 10.0 Larymau Mwg (Tanau Damweiniol mewn Cartrefi)

10.1 Gall larymau mwg/gwres ddarparu rhybudd cynnar o dân, ac roedd rhai ar gael yn y rhan fwyaf (88.5%) o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi lle nad oedd larwm ar gael wedi gostwng 18.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y digwyddiadau lle roedd larwm mwg yno ond heb weithredu wedi cynyddu 18.2% i 26 o gymharu â 22 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol * | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno ac wedi rhoi rhybudd | 2021-22 | 54 | | | | 54 | ↑ 12.5% | 45 | ↑ 20% |
| | 2020-21 | 48 | | | | 48 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2021-22 | 26 | | | | 26 | ↑ 18.2% | 20 | ↑ 30% |
| | 2020-21 | 22 | | | | 22 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd | 2021-22 | 20 | | | | 20 | ↑ 11.1% | 20 | → 0% |
| | 2020-21 | 18 | | | | 18 | | | |
| Dim larwm mwg yno | 2021-22 | 13 | | | | 13 | ↓ 18.8% | 11 | ↑ 18.2% |
| | 2020-21 | 16 | | | | 16 | | | |

Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd cyfnod cymharol y 3 blwyddyn ariannol gyda'r newid canrannol *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad yn bodoli neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Galwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Galwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Galwadau a ddaw gan larymau tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn seinio trwy ddamwain neu pan fo larwm yn seinio a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |